# Dyffryn Clwyd Mission Area

**Sunday 23rd May 2021** PENTECOST

| Dyffryn Clwyd Mission Area Office | Prayer for today |
|---|---|
| **The office will be closed to visitors for the present time. Please contact me on** Email at admin@dyffrynclwyd.co.uk; Web address www.Dyffrynclwyd.co.uk; | God, who at this time taught the hearts of your faithful people by sending to them the light of your Holy Spirit: grant us by the same Spirit to have a right judgement in all things and evermore to rejoice in his holy comfort; through the merits of Christ Jesus our Saviour, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. **Amen** |

**Prayers for those in particular need:** If you know anyone who would like to be included in our weekly prayer list across our churches – please email the administrator by **Thursday lunchtime each week** on admin@dyffrynclwyd.co.uk;

**We continue to hold in our prayers, those who are sick or in particular need especially:** David; Merion; Tony; Frank; Mari; Casandra; Eirlys; Pat, May; Briony; Terry; Janet; Sylvia; Lesley; Sandra; Faith; Sheila; Andy; Ken; Peter; Ion & Monica; Val; Margaret; Jane; John; Christine; Suzanne; Rosemary Williams; Michael and Rosita; Rowan and family; Colin Edwards; Bert Harrison; Sian Harrison; Zackery Okane; Joy Mount, Nia Edwards. The family of Joanne Cartwright - Lily, Laurence and Elysia. Susan Davies, Tony Howarth.

**For those who have recently departed:** Joanne Cartwright, Capt. Dawn Jamieson.

**Nursing Homes and Care Homes:** We continue to pray for all those who live and work in our nursing and residential care homes.

---

**MASKS MUST BE WORN IN CHURCH –**

**IF YOU HAVE A MEDICAL EXEMPTION PLEASE INFORM THE CLERGY.**

**Services for 23rd May 2021**

**Please book a place and join us on Sunday 23rd May 2021: 9.00 am** Llanrhydd, Llanarmon; **9.30 am** Clocaenog Forest Church; **10.30 am** St Peter's Ruthin & Llanbedr; **11.00 am** Llanfair; **4.00 pm** Llanfwrog and Llanynys.

**Book a place at** Worship Booking – Dyffryn Clwyd; this link will take you directly to the page. Scroll down and all the services for Sunday will be visible for you to book, please follow the link. If you are unable to book online for whatever reason, please contact the church wardens or the clergy, who will do this for you.

**Online services.** If you cannot join us in person, you will find the Sunday celebration of Holy Eucharist available live at **10.30 am** www.dyffrynclwyd.co.uk/Live; with daily services available online **Mon-Sat from 10.00 am.**

**Church community meetings:** Following our Easter Vestry meeting, Fr Huw has been out and about meeting with each church community to discuss the development of the Mission Area Plan. Thanks to those who have already attended; the remaining meetings are as follows:-
**21st May** Efenechtyd church 2.00 pm.

**29th May Llanynys church 2.00pm Open Day.** Come along for a cuppa and cake and look at the plans for the former Cerrigllwydion pub and future prospects for pilgrimage here in this place.

**Readings for Next Sunday 30th May 2021 ~ TRINITY SUNDAY**

Isaiah 6: 1-8, (9-10); Psalm 29; Romans 8: 12-17; John 3: 1-17;

## A reading from Acts 2.1-21

When the day of Pentecost had come, they were all together in one place. And suddenly from heaven there came a sound like the rush of a violent wind, and it filled the entire house where they were sitting. Divided tongues, as of fire, appeared among them, and a tongue rested on each of them. All of them were filled with the Holy Spirit and began to speak in other languages, as the Spirit gave them ability.

Now there were devout Jews from every nation under heaven living in Jerusalem. And at this sound the crowd gathered and was bewildered, because each one heard them speaking in the native language of each.

Amazed and astonished, they asked, 'Are not all these who are speaking Galileans? And how is it that we hear, each of us, in our own native language? Parthians, Medes, Elamites, and residents of Mesopotamia, Judea and Cappadocia, Pontus and Asia, Phrygia and Pamphylia, Egypt and the parts of Libya belonging to Cyrene, and visitors from Rome, both Jews and proselytes, Cretans and Arabs - in our own languages we hear them speaking about God's deeds of power.'

All were amazed and perplexed, saying to one another, 'What does this mean?'

But others sneered and said, 'They are filled with new wine.'

But Peter, standing with the eleven, raised his voice and addressed them: 'Men of Judea and all who live in Jerusalem, let this be known to you, and listen to what I say. Indeed, these are not drunk, as you suppose, for it is only nine o'clock in the morning. 'No, this is what was spoken through the prophet Joel: "In the last days it will be, God declares, that I will pour out my Spirit upon all flesh, and your sons and your daughters shall prophesy, and your young men shall see visions, and your old men shall dream dreams. Even upon my slaves, both men and women, in those days I will pour out my Spirit; and they shall prophesy. And I will show portents in the heaven above and signs on the earth below, blood, and fire, and smoky mist. The sun shall be turned to darkness and the moon to blood, before the coming of the Lord's great and glorious day. Then everyone who calls on the name of the Lord shall be saved."'

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

## Psalm 104. 24-36

24 O Lord, how manifold are your works! In wisdom you have made them all; the earth is full of your creatures.

**25 Yonder is the sea, great and wide, creeping things innumerable are there, living things both small and great.**

26 There go the ships, and Leviathan that you formed to sport in it.

**27 These all look to you to give them their food in due season;**

28 when you give to them, they gather it up; when you open your hand, they are filled with good things.

**29 When you hide your face, they are dismayed; when you take away their breath, they die and return to their dust.**

30 When you send forth your spirit, they are created; and you renew the face of the ground.

**31 May the glory of the Lord endure for ever; may the Lord rejoice in his works -**

32 who looks on the earth and it trembles, who touches the mountains, and they smoke.

**33 I will sing to the Lord as long as I live; I will sing praise to my God while I have my being.**

34 May my meditation be pleasing to him, for I rejoice in the Lord.

**35 Let sinners be consumed from the earth, and let the wicked be no more.**

36 Bless the Lord, O my soul. Praise the Lord!

## A reading from Romans 8:22-27

We know that the whole creation has been groaning in labour pains until now; and not only the creation, but we ourselves, who have the first fruits of the Spirit, groan inwardly while we wait for adoption, the redemption of our bodies. For in hope we were saved.

Now hope that is seen is not hope. For who hopes for what is seen? But if we hope for what we do not see, we wait for it with patience. Likewise the Spirit helps us in our weakness; for we do not know how to pray as we ought, but that very Spirit intercedes with sighs too deep for words. And God, who searches the heart, knows what is the mind of the Spirit, because the Spirit intercedes for the saints according to the will of God.

This is the word of the Lord.

**Thanks be to God.**

**Listen to the Gospel of Christ according to St John 15.26-27; 16.4b-15**

‘When the Advocate comes, whom I will send to you from the Father, the Spirit of truth who comes from the Father, he will testify on my behalf. You also are to testify because you have been with me from the beginning.

‘I did not say these things to you from the beginning, because I was with you. But now I am going to him who sent me; yet none of you asks me, “Where are you going?” But because I have said these things to you, sorrow has filled your hearts. Nevertheless, I tell you the truth: it is to your advantage that I go away, for if I do not go away, the Advocate will not come to you; but if I go, I will send him to you. And when he comes, he will prove the world wrong about sin and righteousness and judgement: about sin, because they do not believe in me; about righteousness, because I am going to the Father and you will see me no longer; about judgement, because the ruler of this world has been condemned.

‘I still have many things to say to you, but you cannot bear them now. When the Spirit of truth comes, he will guide you into all the truth; for he will not speak on his own, but will speak whatever he hears, and he will declare to you the things that are to come. He will glorify me because he will take what is mine and declare it to you. All that the Father has is mine. For this reason I said that he will take what is mine and declare it to you.’

**Praise to you, O Christ.**

**Post Communion Prayer** Faithful God, you fulfilled the promises of Easter by sending us your Holy Spirit and opening to every race and nation the way of life eternal: open our lips by your Spirit, that every tongue may tell of your glory; through Jesus Christ our Lord.
**Amen.**



**Dydd Sul 23ain Mai 2021**
**Y Sulgwyn / Pentecost**

**Colect am y Dydd.**
O Dduw, a ddysgaist yr adeg hon galonnau dy ffyddloniaid trwy anfon atynt oleuni dy Ysbryd Glân, dyro i ni drwy'r un Ysbryd feddu barn gywir ym mhob peth a llawenhau byth yn ei ddiddanwch sanctaidd; drwy haeddiannau Crist Iesu ein Gwaredwr, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

**Darlleniad o Actau 2.1-21**

Ar ddydd cyflawni cyfnod y Pentecost yr oeddent oll ynghyd yn yr un lle, ac yn sydyn fe ddaeth o'r nef sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro, ac fe lanwodd yr holl dŷ lle'r oeddent yn eistedd. Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn
rhoi lleferydd iddynt.

Yr oedd yn preswylio yn Jerwsalem Iddewon, pobl dduwiol o bob cenedl dan y nef; ac wrth glywed y sŵn hwn fe ymgasglodd tyrfa ohonynt, ac yr oeddent wedi drysu'n lân am fod pob un ohonynt yn eu clywed hwy yn siarad yn ei iaith ei hun.

Yr oeddent yn synnu a rhyfeddu, ac meddent, "Onid Galileaid yw'r rhain oll sy'n llefaru? A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam? Parthiaid a Mediaid ac Elamitiaid, a thrigolion Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia a Pamffylia, yr Aifft a pharthau Libya tua Cyrene, a'r ymwelwyr o Rufain, yn Iddewon a phroselytiaid, Cretiaid ac Arabiaid, yr ydym yn eu clywed hwy yn llefaru yn ein hieithoedd ni am fawrion weithredoedd Duw."

Yr oedd pawb yn synnu mewn penbleth, gan ddweud y naill wrth y llall, "Beth yw ystyr hyn?"

Ond yr oedd eraill yn dweud yn wawdlyd, "Wedi meddwi y maent."

Safodd Pedr ynghyd â'r un ar ddeg, a chododd ei lais a'u hannerch: "Chwi Iddewon, a thrigolion Jerwsalem oll, bydded hyn yn hysbys i chwi; gwrand-ewch ar fy ngeiriau. Nid yw'r rhain wedi meddwi, fel yr ydych chwi'n tybio, oher-wydd dim ond naw o'r gloch y bore yw hi. Eithr dyma'r hyn a ddywedwyd drwy'r proffwyd Joel: 'A hyn a fydd yn y dyddiau olaf, medd Duw: tywalltaf o'm Hysbryd ar bawb; a bydd eich meibion a'ch merched yn proffwydo; bydd eich gwŷr ifainc yn cael gweledigaethau, a'ch hynafgwyr yn gweld breuddwydion; hyd yn oed ar fy nghaethweision a'm caethforynion, yn y dyddiau hynny, fe dywalltaf o'm Hysbryd, ac fe broffwydant. A rhof ryfeddodau yn y nef uchod ac arwyddion ar y ddaear isod, gwaed a thân a tharth mwg; troir yr haul yn dywyllwch, a'r lleuad yn waed, cyn i ddydd mawr a disglair yr Arglwydd ddod; a bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei achub.'"

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

**Salm 104. 24-35**

24 Mor niferus yw dy weithredoedd, O ARGLWYDD! Gwnaethost y cyfan mewn doethineb; y mae'r ddaear yn llawn o'th greaduriaid.
**25 Dyma'r môr mawr a llydan, gydag ymlusgiaid dirifedi a chreaduriaid bach a mawr.**
26 Arno y mae'r llongau yn tramwyo, a Lefiathan, a greaist i chwarae ynddo.
**27 Y mae'r cyfan ohonynt yn dibynnu arnat ti i roi iddynt eu bwyd yn ei bryd.**
28 Pan roddi iddynt, y maent yn ei gasglu ynghyd; pan agori dy law, cânt eu diwallu'n llwyr.
**29 Ond pan guddi dy wyneb, fe'u drysir; pan gymeri eu hanadl, fe ddarfyddant, a dychwelyd i'r llwch.**
30 Pan anfoni dy anadl, cânt eu creu, ac yr wyt yn adnewyddu wyneb y ddaear.
**31 Bydded gogoniant yr ARGLWYDD dros byth, a bydded iddo lawenhau yn ei weithredoedd.**
32 Pan yw'n edrych ar y ddaear, y mae'n crynu; pan yw'n cyffwrdd â'r mynyddoedd, y maent yn mygu.
**33 Canaf i'r ARGLWYDD tra byddaf byw, rhof foliant i Dduw tra byddaf.**
34 Bydded fy myfyrdod yn gymeradwy ganddo; yr wyf yn llawenhau yn yr ARGLWYDD.
**35 Bydded i'r pechaduriaid ddarfod o'r tir, ac na fydded y drygionus mwyach.**
35a Fy enaid, bendithia'r ARGLWYDD. Molwch yr ARGLWYDD.

**Darlleniad o Rufeiniaid 8:22-27**

Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw. Ac nid y greadigaeth yn unig, ond nyni sydd â blaenffrwyth yr Ysbryd gennym, yr ydym ninnau'n ochneidio ynom ein hunain wrth ddisgwyl ein mabwysiad yn blant Duw, sef rhyddhad ein corff o gaethiwed. Oherwydd yn y gobaith hwn y cawsom ein hachub.

Ond nid gobaith mo'r gobaith sy'n gweld. Pwy sy'n gobeithio am yr hyn y mae'n ei weld? Yr hyn nad ydym yn ei weld yw gwrthrych gobaith, ac felly yr ydym yn dal i aros amdano mewn amynedd. Yn yr un modd, y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddïo, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau, ac y mae Duw, sy'n chwilio calonnau dynol, yn deall bwriad yr Ysbryd, mai ymbil y mae tros y saint yn ôl ewyllys Duw.

Dyma air yr Arglwydd. **Diolch a fo i Dduw.**

.

**Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl**
**Sant Ioan 15: 26-27 – 16: 4b-15**

**Gogoniant i ti, O Arglwydd.**

"Pan ddaw'r Eiriolwr a anfonaf fi atoch oddi wrth y Tad, sef Ysbryd y Gwirionedd, sy'n dod oddi wrth y Tad, bydd ef yn tystiolaethu amdanaf fi. Ac yr ydych chwi hefyd yn tystiolaethu, am eich bod gyda mi o'r dechrau.

"Ni ddywedais hyn wrthych o'r dechrau, oherwydd yr oeddwn i gyda chwi. Ond yn awr, yr wyf yn mynd at yr hwn a'm hanfonodd i, ac eto nid yw neb ohonoch yn gofyn i mi, 'Ble'r wyt ti'n mynd?' Ond am fy mod wedi dweud hyn wrthych, daeth tristwch i lenwi eich calon. Yr wyf fi'n dweud y gwir wrthych: y mae'n fuddiol i chwi fy mod i'n mynd ymaith. Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr atoch chwi. Ond os af, fe'i hanfonaf ef atoch. A phan ddaw, fe argyhoedda ef y byd ynglŷn â phechod, a chyfiawnder, a barn; ynglŷn â phechod am nad ydynt yn credu ynof fi; ynglŷn â chyfiawnder oherwydd fy mod i'n mynd at y Tad, ac na chewch fy ngweld ddim mwy; ynglŷn â barn am fod tywysog y byd hwn wedi cael ei farnu.

"Y mae gennyf lawer eto i'w ddweud wrthych, ond ni allwch ddal y baich ar hyn o bryd. Ond pan ddaw ef, Ysbryd y Gwirionedd, fe'ch arwain chwi yn yr holl wirionedd. Oherwydd nid ohono'i hun y bydd yn llefaru; ond yr hyn a glyw y bydd yn ei lefaru, a'r hyn sy'n dod y bydd yn ei fynegi i chwi. Bydd ef yn fy ngogoneddu i, oherwydd bydd yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi. Y mae pob peth sydd gan y Tad yn eiddo i mi. Dyna pam y dywedais ei fod yn cymryd o'r hyn sy'n eiddo i mi ac yn ei fynegi i chwi."

Dyma Efengyl yr Arglwydd.
**Moliant i ti, O Grist.**

**Gweddi ar ôl y Cymun**
O Dduw ffyddlon, a gyflawnaist addewidion y Pasg drwy anfon dy Ysbryd Glân ac agor ffordd y bywyd tragwyddol i bob hil a chenedl, agor ein gwefusau trwy dy Ysbryd, fel y gall pob tafod ddatgan dy ogoniant; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**